Taith i Ogledd yr Almaen i Astudio Rheoli Coedlannau'n Amgylcheddol

31 Mawrth – 7 Ebrill 2009[1]

Y cefndir

Bwriad y daith hon yw astudio rheoli coedlannau ar sail amgylcheddol fel rhan o ddefnyddio tir yn gynaliadwy. Mae'r term cynaliadwyedd wedi dod yn gyfarwydd iawn ers uwchgynhadledd Comisiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddatblygu Economaidd (UNCED) yn Rio 15 mlynedd yn ôl. Mae'r diffiniad newydd yn datgan y dylai adnoddau coedwigoedd a thiroedd coedwig gael eu rheoli'n gynaliadwy er mwyn darparu ar gyfer anghenion cymdeithasol, economaidd, ecolegol, diwylliannol ac ysbrydol cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol (Cenhedloedd Unedig, 2001). O ganlyniad, mae dulliau gwahanol o reoli coedlannau wedi cael eu cyflwyno yng Ngwledydd Prydain a bathwyd enwau newydd, fel *coedwigaeth gorchudd parhaus* a *choedwigaeth bron yn naturiol* i'w disgrifio.

Mae'r dulliau amgen hyn o reoli coedlannau wedi bod yn cael eu defnyddio yn yr Almaen ers cenedlaethau. Rwyf wedi dewis Gogledd yr Almaen yn benodol fel ardal astudio oherwydd bod yr amodau ar safleoedd yno yn debyg iawn i'r hyn a geir ym Mhrydain. Mae hyn, a'r ffaith i ddulliau rheoli amgen gael eu sefydlu ddim ond 10-20 mlynedd yn ôl, yn ein galluogi i astudio prosesau twf ac ecolegol yn fanwl, yn ogystal â mynd â syniadau a thechnegau yn ôl adref gyda ni.

Bydd rhaglen y daith yn cynnwys

- rheoli cellïoedd o goed *cymysg ac o wahanol oed* ar hyd arfordir Gogledd yr Almaen mewn hinsawdd *arbennig o wyntog*, tyfu coed ar dir a oedd gynt yn dir amaethyddol gyda chymysgedd o goed llydanddail / conifferau (Schleswig-Holstein),
- adnewyddu *cellïoedd coed cymysg ar bridd tywodlyd gwael* o dan ganopi o *ffynidwydd cenhedlaeth gyntaf*, plannu derw a ffawydd o dan ganopi o ffynidwydd, rheoli coedlannau gwerthfawr ffynidwydd Douglas (Sacsoni Isaf: Gweundiroedd Lüneburg),
- rheoli coedlannau cymysgedd *ynn-sycamor-ffawydd, pyrwydd-ffawydd Norwyaidd a derw-ffawydd* (Sacsoni Isaf: Göttinger Wald, Solling, mynyddoedd Harz),
- arbrofion gyda phori, adfer hen borfeydd mewn coed, rheoli bywyd gwyllt yn cynnwys ailsefydlu'r lyncs,
- adfer safleoedd coetir hynafol,
- hanner diwrnod o ddarlithoedd ar bynciau'r daith gan arbenigwyr o Brifysgol Göttingen,
- gwybodaeth ymarferol ar goedwriaeth coed unigol, yn cynnwys marcio coed ar gyfer eu teneuo a'r dull coed fframwaith; hyfforddiant mewn systemau tyfu coed,
- adnabod a thrafod gwahanol fathau o bridd a llystyfiant daear,
- adnabod coed a phlanhigion fasgwlaidd, swyddogaeth rhywogaethau dangosol.

Bydd y daith astudio'n cael ei chyd-drefnu gan Wasanaethau Coedwigaeth Sacsoni Isaf a Schleswig-Holstein, Prifysgol Göttingen a chyfarwyddwyr Gorsafoedd Ymchwil Coedwigaeth Sacsoni Isaf.

Costau: ~ £400 y pen ar gyfer myfyrwyr llawn amser, £550 ar gyfer aelodau CCFG a £600 ar gyfer pob un arall. Mae'r pris yn cynnwys cludiant, llety, brecwast a hyfforddiant. Nifer cyfyngedig o leoedd sydd ar gael a'r cyntaf i'r felin gaiff falu.

Bydd gwefan benodol (Blackboard) yn rhoi gwybodaeth fanwl am y daith wrth i'r cynllunio fynd yn ei flaen.

Oes oes gennych chi ddiddordeb ac eisiau gwybodaeth bellach, cysylltwch â:

Dr Arne Pommerening, arne.pommerening@bangor.ac.uk neu
Ted Wilson, CCFG Administration, ccfg.admin@gmail.com

[1] Gall y dyddiadau newid ychydig o 1 neu 2 ddiwrnod.